# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 25-03-08

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Michael Parry (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Michael Sol Owen ac Alan Williams, (Cyngor Gwynedd), Wil Williams (Yacht Haven), Dewi Owen Jones, (Cyngor Tref Pwllheli), Brian Edmunds a David Dewsbury, (Cymdeithas Cychod Hafan), Rod Green, (Cymdeithas Cychwyr Pwllheli), John Morris (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), R.J. Wright (Sefydliad y Bad Achub), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli), David Hughes, (Siambr Fasnach Pwllheli),

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Dafydd Phillips (Harbwr Feistr Pwllheli) Huw Davies (Peiriannydd Grŵp) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd R.P. Hughes, a'r Cynghorydd Roy Owen, (Cyngor Gwynedd) Y Cynghorydd B. Bracewell (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

**Cyfieithu:** Trwy amryfusedd nid oedd offer cyfieithu yn yr ystafell gyfarfod a chytunwyd parhau trwy gynnal y cyfarfod yn Saesneg.

**Teyrnged:** Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth ddiweddar David Peters a fu'n aelod o'r Panel am nifer o flynyddoedd. Pwysleisiodd fod cyfraniad cydwybodol a chyson Mr Peters wedi bod yn hynod fuddiol. Safodd yr aelodau mewn distawrwydd fel arwydd o barch.

**Croeso:** 'Roedd rhai aelodau newydd ar y Panel a chroesawyd pawb gan y Cadeirydd. Rhoddwyd cyfle i bawb gyflwyno ei hun gan nodi pa gymdeithas neu awdurdod oeddynt yn ei gynrychioli.

**Is-gadeirydd:** Nodwyd fod Is-gadeirydd y Panel wedi ymddiswyddo ac ystyriwyd os oedd angen ethol aelod arall i'r swydd. Cytunwyd nad oedd angen gwneud hyn hyd y cyfarfod nesaf.

**Materion Brys**

Nid oedd yr eitemau canlynol wedi eu cynnwys ar raglen y pwyllgor, ond cytunodd y cadeirydd eu hystyried o dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd na allai'r mater aros hyd gyfarfod nesaf y Panel ar 14 Hydref 2008.

*Llythyr Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli*

Cyfeiriwyd at lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Gadeirydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli.

'Roedd Cadeirydd y Panel yn fodlon y byddai'r rhan helaethaf o'r materion y cyfeiriwyd atynt yn y llythyr yn cael ystyriaeth o fewn rhaglen y cyfarfod. Ond cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at gŵyn a wnaed ynglŷn ag ymdrechion yr Uned i brynu offer yn lleol.

Yn ôl y llythyr 'roedd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli yn pryderu fod badau 'Zap Catts' a pheiriannau ar eu cyfer heb roi'r pryniant allan i dendr. Cadarnhaodd y swyddog fod badau wedi eu prynu ond nad 'Zap Cats' oedd wedi eu pwrcasu. Pwysleisiodd y swyddog mai un cwmni sy'n gwerthu cychod ' Powercats' ac nad oedd dewis arall. 'Roedd yn hynod bwysig fod gan staff gychod fyddai'n addas ar gyfer gwaith rheoli harbwr a dyfroedd cyfagos. 'Roedd y cwch 'Powercat' wedi ei adnabod fel yr un gorau ar gyfer y math yma o waith.

Ychwanegodd fod y peiriannau'n cael eu prynu'n lleol, a bod badau a brynwyd y llynedd hefyd wedi eu prynu'n lleol.

Nodwyd gan aelod i'r cwynion gael eu gwneud gan ddau aelod o'r Gymdeithas.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth gan nodi y dylid ystyried rhoi pryniant allan i dendr yn y dyfodol pan fo hynny'n rhesymol.**

*Rhwystr ger wal yr harbwr*

Mynegwyd peth pryder ynglŷn â chwch sydd wedi cael ei angori ger wal yr harbwr ers peth amser. Dywedwyd ei fod mewn cyflwr gwael ac yn achosi rhwystr.
Atebodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod perchennog y cwch yn talu ffioedd llawn ond fod camau'n cael eu cymryd i'w symud i'r angorfa briodol.

Ychwanegodd bod yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau wedi derbyn cyfarwyddyd i sicrhau fod y cwch yn cael ei leoli ar angorfa rhwng Yr Hen Ynys a Chei'r Gogledd cyn diwedd mis Mawrth 2008.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth**

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2007 fel rhai cywir.

**2. Materion yn codi o'r cofnodion**

**a) Disgownt –** Yn y cyfarfod diwethaf rhoddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o gynnig disgownt ar ffioedd a thaliadau angori cwch ar bontŵn yn Hafan Pwllheli ar gyfer cwsmeriaid a fu'n byw yng Ngwynedd yn barhaol a llawn amser.

Penderfynwyd bryd hynny bod yr aelodau i anfon manylion am unrhyw awgrymiadau i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig. Nodwyd nad oedd unrhyw awgrymiadau wedi eu derbyn.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.**

**b) Parcio -** Tynnwyd sylw pellach at drafferthion parcio yng nghyffiniau gorsaf y Bad Achub ac adroddwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bydd arwyddion yn cael eu gosod o fewn pythefnos. Cadarnhawyd y byddai'r Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn sicrhau fod yr arwyddion ar eu safleoedd cyn 14 Ebrill 2008.

Pwysleisiwyd gan aelod fod taliadau lansio cychod a pharcio cerbydau'n cael eu gwneud, ac mai'r unig ateb teg fyddai cael maes parcio swyddogol. Tynnodd sylw at safle cyfagos, ac awgrymodd y gellid gwneud defnydd ohoni.

'Roedd peth amheuaeth ynglŷn â sefyllfa gyfreithiol y safle yma.

**PENDERFYNWYD gwneud ymholiadau a cheisio cael gwybodaeth bellach am faterion cyfreithiol mewn cysylltiad â'r safle.**

**3. ADRAN FORWROL**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar weithgareddau Harbwr Pwllheli gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:

**Ffioedd a Thaliadau**

Cyflwynwyd gwybodaeth am ffioedd a thaliadau, a gadarnhawyd gan Fwrdd y Cyngor, ar gyfer Hafan Pwllheli ac angorfeydd yr harbwr allanol.

Nodwyd fod Taliadau ar gyfer angorfeydd pontŵn yn Hafan Pwllheli yn cynyddu 6% gyda gweddill ffioedd yr Hafan yn cynyddu 3% . Yn yr harbwr allanol, bydd taliadau gan rai sy'n byw'n barhaol yng Ngwynedd yn cynyddu 2% gyda'r taliadau i rai sy'n byw tu allan i'r sir yn cynyddu 4%.

Cyfeiriwyd at ffioedd a thaliadau o safbwynt cychod pŵer a badau dŵr personol,

Disgwylir i'r chwyddiant ar gyfer pob harbwr yng Ngwynedd yn 2008/09 fod yn 3.97%. Mae hyn yn gyfartal â chynnydd o £11,270 sydd ei angen yn y targed incwm cronnol.
Yn Hafan Pwllheli disgwylir i'r mynegydd chwyddiant fod yn 2.98%. Mae hyn yn cyfateb i'r cynnydd sydd ei angen o £42,260 yn y targed incwm cronnol ar gyfer 2008/09.

Nodwyd fod incwm Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol yn uwch na'r disgwyl. Caiff camau pwrpasol eu cymryd i sicrhau y bydd y penawdau gwariant ac incwm yn parhau i gyrraedd pob targed yn 2008/09.

Cyfanswm cynnydd targed incwm yr Uned Forwrol ar gyfer 2008/09 fydd £62,000. Yn sgil hyn bydd cyfanswm targed incwm yr Uned Forwrol yn £2,070,880.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd y byddai system gofrestru yn gweithredu yn Hafan Pwllheli eleni. Bydd hyn mewn cysylltiad â'r cynllun 'parcio a lansio' yn hytrach na'r rhai sydd wedi eu hangori'n barhaol yn yr harbwr. Mae'r rhai a fu eisoes yn lansio ar lithrfa ger swyddfa'r Harbwr Feistr eisoes yn cofrestru eu badau.

Yn sgil y cofrestru bydd rhifau adnabod ar y cychod, a dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bydd hyn o fudd i bawb.

**Cyllidebau**

Cyflwynwyd gwybodaeth gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar sefyllfa ariannol Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol.

O safbwynt yr harbwr, atgoffwyd aelodau mai £113,000 oedd y targed incwm ar gyfer 2007/08 a nodwyd bod yr incwm a gynhyrchwyd yn £123,000. Ni ddisgwylir y bydd incwm sylweddol yn cael ei gynhyrchu yn ystod Chwefror a Mawrth a nodwyd y dylai'r targed incwm aros yn llawer uwch na'r targed.

Ychwanegwyd mai £1,418,000 oedd  targed incwm Hafan Pwllheli ar gyfer 2007/08. Ar ddiwedd Ionawr 2008 'roedd yr incwm a gynhyrchwyd yn £1,391,000. Rhagwelir y bydd y targed incwm yn cael ei gyrraedd erbyn diwedd Mawrth.

Adroddwyd fod gwariant, hyd yma, ar nifer o faterion yn yr harbwr allanol yn uwch na'r gyllideb a bod hyn yn achosi cryn bryder gan y rhagwelir gwariant pellach ym mis Mawrth. Bydd angen yr incwm ychwanegol a gynhyrchwyd i sicrhau y bydd y gyllideb gyffredinol yn cyrraedd pob targed.

Pwysleisiodd y swyddog y bydd 2008/09 yn flwyddyn anodd i'r Uned Forwrol, yn arbennig felly o safbwynt harbwr Pwllheli, Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw. Ychwanegwyd y bydd angen gweithio'n effeithiol a defnyddio'r arian yn ddoeth.

**Mordwyo/Angorfeydd**

Cyflwynwyd adroddiad llawn gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar y cymhorthion mordwyo ac angorfeydd.

Nodwyd fod y tri bwi, a osodwyd dros dro ger ceg yr harbwr i arwain badau oddi wrth y dŵr bas, dal yn eu safleoedd. Disgwylir iddynt aros yno, hyd 2012, o bosib, pan fydd y rhaglen garthu ar gyfer y rhan yma o'r harbwr yn ail ddechrau.

Mynegwyd pryder am hyn, a phwysleisiodd aelod mai mynedfa'r harbwr oedd y safle a oedd yn achosi'r drafferth fwyaf, gan fod y sianel mor gul.  Rhybuddiodd fod perygl i fadau wrthdaro yno

Archwiliwyd y cyfan o angorfeydd yr harbwr a gwnaed gwaith cynnal a chadw arnynt. Adroddwyd fod cyfanswm cost y gwaith cynnal a chadw yn yr Harbwr Allanol yn £4,723.

Newidiwyd y cyfan o'r dolennau angori yn yr Harbwr Allanol a nodwyd fod cyfanswm y gost yn £3,170. O ganlyniad, disgwylir na fydd angen newid y dolennau yma hyd 2028.

Mynegwyd cryn bryder gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynglŷn â chyflwr pontwns a ddefnyddir gan bysgotwyr lleol. Adroddwyd fod y gwaith archwilio a chynnal a chadw wedi ei wneud a bod y pontwns mewn cyflwr difrifol gyda phryfetach wedi creu cryn ddifrod iddynt.

Pwysleisiwyd y bydd angen sicrhau na fydd y pysgotwyr yn cadw offer trwm ar y pontwns. Bydd yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn archwilio'r pontŵn yn wythnosol gan gludo offer oddi yno pe byddai'n achosi anhawster a difrod.

Yn ogystal, bydd yn rhaid iddynt gael gwared â phob abwyd mewn ffordd na fydd yn denu pryfetach. Ychwanegwyd y bydd yr Uned yn ystyried adolygu'r gostyngiad mewn taliadau a ffioedd os na fydd y pysgotwyr yn cyd-fynd â'r galwadau yma.

Cyfeiriwyd at y costau cynyddol, a holwyd pam fod angen deifwyr i archwilio angorfeydd pryd y gellid gwneud y gwaith pan fo'r dŵr yn isel. Eglurwyd y byddai'n rhaid ystyried y risg o weithio yn y mwd a bod y gwaith o godi'r cadwyni'n haws mewn dŵr.

**Staff**

Adroddwyd ar sefyllfa staffio'r Uned Forwrol a nodwyd fod nifer o swyddogion wedi bod ar secondiad mewn ardaloedd eraill yn ystod y gaeaf.
Er bod y swyddog, sydd ar secondiad ym Mhorthmadog, wedi nodi ei ddymuniad i ddychwelyd i'w swydd yn Abersoch/Pwllheli, disgwylir y bydd yr harbwr feistr presennol ym Mhwllheli, sydd ar secondiad o Borthmadog, yn aros yn y swydd yma hyd ddiwedd mis Medi pryd y bydd y cyfnod secondiad yn dod i ben.

**Prosiect Academi Hwylio**

Yn unol â phenderfyniad Bwrdd y Cyngor, gwnaed ymholiadau i'r posibilrwydd o ddatblygu academi hwylio ym Mhwllheli mewn ymateb i boblogrwydd y safle fel canolfan ar gyfer cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

Adroddwyd ar y gwaith a wnaed hyd yma, a chadarnhawyd y byddai'n bosib carthu a chreu basn  i'r gogledd o'r marina presennol, a gosod pontwns yno ar gyfer badau i ymweld neu gystadlu.

Ychwanegwyd fod 'Marina Projects' wedi eu penodi i ymchwilio a chynnig yr opsiwn gorau. Cynhaliwyd arddangosfa ym Mhwllheli rhwng 6 ac 8 Mawrth fel y gallai aelodau'r cyhoedd astudio'r cynllun a lleisio barn arno.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Pwyllgor i leisio barn a chyfeiriwyd yn arbennig at gostau'r cynllun a'r hyn a allai ddigwydd pe byddai'n fethiant.

Pwysleisiwyd y byddai'n angenrheidiol cael cynllun busnes hynod fanwl . Nodwyd hefyd y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi grant tuag at y cynllun ac y byddai'n rhaid i'r cynllun busnes eu bodloni hwy.

**Gŵyl 'Wakestock'**

Adroddwyd y caiff gŵyl flynyddol 'Wakestock' ei chynnal ym masn gogleddol Pwllheli ar 5 a 6 Gorffennaf.

'Roedd y dyddiadau yma, a hysbysebwyd gan drefnwyr yr ŵyl yn gwrthdaro â dyddiadau Gŵyl Fwyd Llŷn a oedd wedi eu cadarnhau eisoes. Oherwydd hyn penderfynodd trefnwyr yr ŵyl fwyd newid eu dyddiadau i 7 ac 8 Mehefin.

Adroddwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod eglurhad llawn wedi ei roi i drefnwyr gŵyl Wakestock fod rhaid iddynt dderbyn hawl swyddogol gan y Cyngor cyn cyhoeddi dyddiadau'r achlysur.

**Rheolaeth Hafan Pwllheli**

Atgoffwyd aelodau y bydd y gwaith o reoli Hafan Pwllheli yn cael ei fewnoli. Bydd y cytundeb gyda Yacht Haven Management Ltd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2008.

Er y newid, nodwyd mai'r un gweithwyr, sydd bellach yn hynod brofiadol, fydd yn gwneud y gwaith. Adroddwyd fod disgwyl i hyn sicrhau y gellir gwneud y newid yn ddidrafferth gyda safon uchel y gwasanaeth yn aros.

Eisoes diolchodd Cyngor Gwynedd i Yacht Haven Management Ltd am y gwasanaeth ardderchog a gafwyd ganddynt ers agor Hafan Pwllheli.

'Roedd aelodau'r Panel hefyd yn awyddus i nodi eu cefnogaeth i'r staff a diolch am y gwaith a wnaed yn yr Hafan

**Materion Cyffredinol**

Adroddwyd fod gwybodaeth am nifer o ddigwyddiadau yn ystod y gaeaf pan oedd beiciau modur a 'quad bikes' yn cael eu defnyddio yng nghylch y twyni tywod a'r traeth yng Nglan Don a Thraeth Abererch.

Nodwyd fod y mannau yma gyferbyn ag Ardal Warchodaeth Arbennig a bod eu defnyddio yn y fath fodd yn drosedd. Bu gweithwyr ychwanegol o'r Uned yn cadw golwg ar y llecynnau a gofynnwyd am gymorth pellach gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Yn ystod Ionawr a Chwefror cafwyd adroddiadau am grwbanod y môr yn cael eu darganfod yn farw ar wahanol draethau. Anfonwyd y cyrff i Sw Llundain i gael eu harchwilio a disgwylir adroddiad ar achos marwolaeth yn fuan.

Galwyd ar aelodau'r cyhoedd i gadw golwg wrth gerdded hyd y traethau ac i roi gwybodaeth i'r awdurdodau am ddigwyddiadau o'r fath.

Cyflwynwyd gwybodaeth am y digwyddiadau a drefnwyd gan Glwb Hwylio Pwllheli. Llongyfarchwyd y trefnyddion am lwyddo i ddenu prif gystadlaethau i Bwllheli, a

chyfeiriwyd yn arbennig at Bencampwriaeth Ieuenctid y Deyrnas Unedig sydd i'w chynnal ym Mhwllheli ar 3 Ebrill pan fydd y Dywysoges Frenhinol yn bresennol

Nodwyd fod gweithwyr o'r Uned Forwrol yn cynorthwyo ar adegau i gyfarfod ag anghenion y cystadleuwyr a'r trefnwyr. Bydd y drefn yma'n parhau, ond rhybuddiwyd fod y marina bellach yn gweithio hyd eithaf ei chapasiti, ac o bosib bydd diffyg yn nifer yr angorfeydd pontŵn fydd ar gael yn yr harbwr.

Mynegwyd balchder yn y ffaith fod Pwllheli wedi cael ei dewis yn swyddogol fel man hyfforddi ar gyfer cystadleuwyr allai fod yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd a'r Para Olympaidd yn 2012..

**Bad Achub**

Rhoddwyd gwybodaeth y cynhelir seremoni ddydd Sadwrn, 26 Ebrill i enwi cwch newydd gorsaf y Bad Achub. Galwyd am i rai gwelliannau gael eu gwneud yn ardal y lansio ar gyfer yr achlysur.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 4. CARTHU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Peiriannydd Grŵp ar raglen garthu arfaethedig Hafan Pwllheli a'r Sianel Fordwyo.

O safbwynt gwaith arfaethedig i lefelu gwely'r harbwr, adroddwyd fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n gwrthwynebu'r cynllun. Yn dilyn ymchwiliadau a wnaed, gwelwyd fod y lefelau o gromiwm yn rhyfeddol o uchel mewn 4 o'r 5 sampl a gymerwyd o'r gwaelodion.

Mewn llythyr oddi wrth y Cyngor Cefn Gwlad, nodwyd fod mannau dan sylw ger safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a rhybuddiwyd y gallasai'r gwaith o symud gwaelodion amharu ar fywyd gwyllt.

'Roedd y sefyllfa yn ddirgelwch ac yn destun pryder i'r aelodau. Awgrymwyd ambell eglurhad a galwyd am i ymholiadau gael eu gwneud ar gynnwys dŵr yr afonydd.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd swyddogion mai'r unig ateb i'r sefyllfa fyddai carthu'n gyfan gwbl a mynd â'r gweddillion i fan gwahanol.

**PENDERFYNWYD gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â'r samplau, a chymryd samplau pellach i'w asesu os bydd angen .**

Dechreuodd y cyfarfod am 5pm a daeth i ben am 6:30pm

**CADEIRYDD**
(04-11-08)